

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Beryl Davies (Cefn Berain) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Dewi, yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth amdano.
- Anfonwn ein cofion heddiw at Megan Evans (Llansannan) ac Elwy Ll. Evans (Tanyfron), y ddau yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Treuliodd Aled Williams (Hiraethog) ychydig amser yno hefyd ond mae'n dda cael adrodd ei fod adref erbyn hyn, fel ag y mae Kitty Parry (Llanefydd) yn dilyn cyfnod yn cryfhau yng nghartref Dolwen. Cyflwynwn hwy, a phawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Arfon Davies (Saron) a Mari ar enedigaeth merch, chwaer fach i Elsi Thea. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

I ddo

- **GWISGO MERCH AR DRAWS Y BYD MAI 31AIN** – Mae cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i fynd i Ganolfan 'HWB Dinbych' pnawn dydd Mawrth, Mai 31ain o 12:00 – 4:00 i bwytho mwy o ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu neu grosio tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu/crosio hefo chi. (Mae digon o beiriannau gwnïo yno.) Croeso i bawb o bob oed!
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 12fed yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2015-16. Arweinydd: Nia Wyn Jones, Gellifor. Croeso i bawb.
- **SUL Y FRO** – dydd Sul, Mehefin 26ain. **"i-Grist"** – oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Llansannan am 11:00 yng nghwmni Andy Hughes, Llandderfel (Cyfarwyddwr Saint y Gymuned). Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i gyfeiriad Caernarfon ac yn stopio i gael picnic a chyfle i gymdeithasu (o bosib ym Metws y Coed), cyn mynd i'r Hwylfan neu i fynd am dro o gwmpas y dref yng Nghaernarfon. Wedi tamaid i'w fwyta yn y dref, byddwn yn ymuno â chynulleidfa Capel Caersalem, Caernarfon ar gyfer oedfa am 5:30 fydd yn cael ei harwain gan eu gweinidog, y Parch. Rhys Llwyd. Mae Capel Caersalem wedi ei weddnewid yn ddiweddar ac mae pobl o bob oed yn addoli yno. Croeso i bawb!
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Penwythnos Plant 8 – 12 oed:** Mehefin 17-19
 - **Picnic Mawr 5 – 11 oed:** Gorffennaf 2
 - **Cwrs Ieuenctid i flynyddoedd 7 – 11:** Gorffennaf 25-29

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 6:1-8 (BCND tud. 624 / BCN tud.568)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Mai 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 56:1-2

(BCND tud.672 / BCN tud.613)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Yn ystod 'Blwyddyn y Beibl Byw' byddwn yn derbyn cyfraniadau gan aelodau'r Fro am eu 'Hoff ddarn o'r Beibl'. Diolch i Dawn Wilks am fod y cyntaf i gyfrannu, ac i Sarah am gydlynu'r cyfraniadau fydd yn ymddangos yn achlysurol rhwng rŵan a'r haf.

Fy hoff ddarn o'r Beibl

Cawsom ddiwrnod arbennig ym Mhenwythnos y Merched yng Ngholeg y Bala. Dros wythdeg o ferched dros Gymru wedi casglu i addoli a chymdeithasu hefo'i gilydd. Unwaith eto, roedd Sian a "dream team" y Coleg wedi creu, trefnu a pharatoi digwyddiad bendigedig a chroesawgar.

Y flwyddyn hon, Menna Machreth oedd yn siarad ac fe siaradodd ar Eseciel 37 lle mae Eseciel o flaen y Dyffryn o Esgyrn Sychion. Mae Duw yn gofyn i Eseciel siarad gyda'r esgyrn ac mae Duw yn dod â nhw yn fyw. Cymharodd Menna hyn i'n bywydau ni, weithiau teimlwn fel nad oes gobaith mewn rhai sefyllfaoedd, neu o bosib bod ein hesgyrn ni yn sych a'n bod ni'n stryglu i ddarllen y Beibl a gweddio.

Pan gychwynnodd Duw ei waith ar yr esgyrn sychion, roedd sŵn ratlo wrth iddyn nhw ddo at ei gilydd. Heriodd Menna inni wrando am y ratlo yn ein bywydau ni – y sŵn o Dduw yn rhoi pwriad bach inni. Does dim ots pa mor sych yw ein hesgyrn, gall Duw wneud cymaint hefo ni. Mae o eisiau inni glywed y ratlo yna, ac eisiau rhoi calon ac ysbryd newydd inni, a dod â ni yn ôl yn fyw i wneud ei waith anhygoel o, a dod a gogoniant Iddo!

Roedd Sian eisiau rhoi anrheg bach i'r merched i gyd, rhywbeth fyddai'n helpu iddyn nhw gofio camu i mewn i beth mae Duw wedi ei baratoi iddyn nhw, ac i fod yn ddisgwylgar bob dydd. Felly, fe wnes i greu plac bach i bawb hefo'r adnod o Eseciel 36:26 arno: "Bydda i'n rhoi calon newydd i chi, ac yn rhoi ysbryd newydd i chi."

Gan fy mod wedi ysgrifennu hyn dros gant o weithiau ar y plac bach, mae'r adnod yma wedi sefyll yn fy nghof. Ein gweddi yw y bydd y merched yn rhoi'r plac i fyny yn rhywle yn eu tai ac y byddant yn cael eu hatgoffa'n ddyddiol am gariad Duw tuag atyn nhw, a'i fod wedi dewis ein ddefnyddio mewn ffordd arbennig iawn.



DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Dawn Wilks

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 29^{ain}
- **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn Henllan. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.
- Mawrth – 31^{ain}
- **Gwisgo Merch ar draws y Byd** – Mae cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i fynd i Ganolfan 'HWB Dinbych' pnavn dydd Mawrth, Mai 31ain o 12:00 – 4:00 i bwytho mwy o ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu neu grosio tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu/crosio hefo chi. (Mae digon o beiriannau gwnïo yno.) Croeso i bawb o bob oed!
- Sadwrn – 4^{ydd}
- **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn y Bala (lleoliad i'w gadarnhau).
- Sul nesaf – 5^{ed}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 29^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 29^{ain} Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 5^{ed} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfarfod i drefnu rhaglen y Gymdeithas ar gyfer 2016-17.

Henllan a Groes

- Sul yma – 29^{ain} Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 10.00 a bydd paned i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 29^{ain} Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Capel y Waen o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled.
- Sul nesaf – 5^{ed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfarfod eglwys i holl aelodau Tanyfron.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 29^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw aelodau Peniel o blaid galw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwysi Bro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron ac ym Mheniel am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 29^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Gwener – 3^{ydd} Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghewn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf – 5^{ed} Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghewn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd a'r oedolion yn dilyn am 11.15. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

- Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.